

Cymrodoriaeth yr Academi Addysg Uwch (HEA)

Cod Ymarfer

Cod Ymarfer

Yn ein harferion proffesiynol, fel Cymrodorion byddwn yn:

1. Gweithredu gyda pharch, uniondeb a gonestrwydd.
2. Monitro ac adolygu ein gwaith yn rheolaidd er mwyn cynnal enw da.
3. Ymgymryd â gweithgareddau priodol er mwyn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddysgu ac addysgu, pynciau ac asesu.
4. Bod yn agored i ac yn gydwytbodol wrth ystyried yr adborth a geir trwy arfarniadau, arsylwadau cyfoedion a myfyrwyr.

Er budd dysgwyr, fel Cymrodorion byddwn yn:

5. Dangos ein parch at ddysgwyr trwy roi sylw dyledus i'r ffordd rydym yn ymddwyn yn ein bywydau proffesiynol.
6. Bod yn deg ac yn ddiuedd yn ein hymgysylltiad â dysgwyr.
7. Annog cyfnewid syniadau yn rhydd rhyngom ni a dysgwyr.

Er budd cydweithwyr, fel Cymrodorion byddwn yn:

8. Dangos parch dyledus i farn cydweithwyr wrth gyfnewid beirniadaeth a syniadau adeiladol.
9. Cefnogi a chynorthwyo gyda datblygiad proffesiynol cydweithwyr er mwyn sicrhau bod arferion da yn cael eu cynnal a'u gwella a diogelu dysgwyr rhag arferion gwael.
10. Bod yn ymwybodol ac ystyried nodau, polisïau, safonau a rheoliadau addysgol y sefydliad sy'n ein cyflogi a thu hwnt.

Parhau ag enw da fel Cymrawd HEA

Mae'r angen i sicrhau bod Cymrodorion HEA yn parhau ag enw da wedi bod yn fater pwysig i danysgrifwyr HEA ac i'r Cymrodorion eu hunain ers peth amser. Mae'r HEA yn diffinio parhau ag enw da fel 'parhau i weithio yn unol â'r safon a nodir yn Nisgrifydd Cymrawd perthnasol Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU (UKPSF)'. Mae'r disgwyliad i Gymrodorion barhau ag enw da yn ymhlyg yn UKPSF ac mae'r gyfres o ddatblygiadau a amlinellir isod yn ceisio helpu tanysgrifwyr a Chymrodorion i gorffori'r disgwyliad hwn yn y ddarpariaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Ceir pum maes datblygu:

Cod Ymarfer ar gyfer Cymrodorion

Mae'r Cod Ymarfer yn sefydlu cyfres o egwyddorion a disgwyliadau ar gyfer unigolion sy'n ennill Cymrodoriaeth HEA a chafodd ei ddatblygu mewn ymateb i geisiadau'r sector am ganllawiau a hefyd fel rhan o'r gyfres hon o ddatblygiadau yn ymwneud â pharhau ag enw da. Mae arolwg o Gymrodorion wedi dangos bod cefnogaeth eang ar gyfer cyflwyno Cod ac mae'n glir y bydd ei ddefnyddioldeb yn cael ei ategu'n fawr os caiff ei ddefnyddio fel rhan o broses parhau ag enw da yn hytrach nag ar ei ben ei hun.

Achredu

Bydd HEA, drwy achredu fframweithiau DPP, yn rhoi'r cyfrifoldeb dros sicrhau bod Cymrodorion yn parhau ag enw da i'r darparwr AU yn yr un ffordd ag y mae ar gyfer dyfarnu Cymrodoriaeth. Caiff sicrhau ansawdd y gofyniad hwn ei gyflawni trwy'r un broses sydd yn ei lle ar gyfer fframweithiau/cynlluniau DPP a chaiff ei weld fel cydran sy'n cyfrannu at hyn. Caiff y gofyniad hwn ei gyflwyno yn 2013/14. Caiff cymrodorion nad ydynt yn addysgu mewn sefydliad sy'n tanysgrifio eu hannog i gadw cofnod o DPP. Disgwylir i Gymrodorion ddilyn proses barhaus o ddatblygiad proffesiynol a chofnodi tystiolaeth, a chaiff tystiolaeth o sampl fach o Gymrodorion ei gymryd bob blwyddyn. Bydd HEA yn datblygu templed ar-lein y gall Gymrodorion ei ddefnyddio.

Credyd DPP i'r rhai sy'n dilyn datblygiad proffesiynol wedi'i ddarparu gan HEA

Bydd HEA yn nodi sut y mae pob un o'i weithgareddau, gan gynnwys y rhai a ddarperir ar y cyd â sefydliadau eraill, yn cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol ac yn cysylltu â UKPSF. Bydd hyn hefyd yn hyrwyddo gwerth Cymrodoriaeth i gyfranogwyr. Mae gwneud gweithgareddau HEA yn gydnaws â UKPSF yn dechrau'n gynnar yn 2013-14 a chaiff gweithgareddau pilot eu defnyddio i archwilio sut y gallai credyd DPP gael ei ddyrannu.

Cymeradwyaeth HEA o ddatblygiad proffesiynol wedi'i ddarparu gan asiantaethau allanol

Bydd HEA yn cynnig cyfle i gyrff allanol ennill cymeradwyaeth HEA ar gyfer gweithgareddau DPP a phrofiadau dysgu. Bydd y ddarpariaeth ddeuol hon o DPP yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd cryf rhwng HEA a sefydliadau o'r fath.

Bydd HEA yn gweithio i ddatblygu ymhellach y berthynas â chymdeithasau/sefydliadau pwnc a phroffesiynol er mwyn archwilio gyd-gydnabyddiaeth o'r gofyniad addysgu a dysgu.



Cysylltu â ni

+44 (0) 3300 416201

fellowship@advance-he.ac.uk

www.advance-he.ac.uk

[!\[\]\(23d9fc146e83b5c3013cfa32c784f8d5_img.jpg\) in \[!\\[\\]\\(f5c463b8c1554ac5049d611bd8e33a51_img.jpg\\) f @AdvanceHE\]\(#\)](#)

© 2019 Advance HE. Cedwir pob hawl.

Mae Advance HE yn gwmni cyfyngedig drwy warant sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr rhif 04931031. Wedi'i gofrestru fel elusen yng Nghymru a Lloegr rhif 1101607. Wedi'i gofrestru fel elusen yn yr Alban rhif SC043946. Ni ddylai geiriau a logo Advance HE gael eu defnyddio heb ein caniatâd. Rhif cofrestru TAW GB 152 1219 50.